ColegauCymru CollegesWales

Yn codi proffil addysg bellach
Raising the profile of further education

# newyddion Cymraeg ColegauCymru #190
# 06 Gorffennaf 2015

**Croeso i e-newyddion ColegauCymru yn y Gymraeg - y diweddariad wythnosol o newyddion colegau addysg bellach Cymru.**

Os ydych yn darllen copi sydd wedi ei anfon atoch gan rywun arall, ac hoffech danysgrifio eich hun, da chi Cysylltwch.

**Welcome to Welsh language edition of the CollegesWales e-news.**

Do please let us know if you would like to subscribe to our English language version as well as - or instead of - this Welsh language version.

## Datblygiadau Strategol

### Agoriad swyddogol campws newydd canol dinas Caerdydd gwerth £45m

Mae Coleg Caerdydd a'r Fro wedi agor ei ddrysau'n swyddogol i Gampws newydd gwerth £45m yng Nghanol y Ddinas - un o'r prosiectau addysgol mwyaf uchelgeisiol yng Nghymru.
Mwy>>>

## Colegau o Ansawdd

### Gwobrau Dysgu Digidol Cenedlaethol 2015

Enillodd Adran Cymraeg i Oedolion GLlM wobr 'Cynnwys digidol gwreiddiol, addysg bellach' yng Ngwobrau Dysgu Digidol Cenedlaethol 2015 am ei brosiect yn cynnig cefnogaeth ar-lein i ddysgwyr.
Mwy>>>

### Coleg yn ennill Safon Aur Corfforaethol

Ail-ddilyswyd Coleg y Cymoedd gyda Gwobr Aur y Safon Iechyd Corfforaethol am ei waith yn annog lles y staff.
Mwy>>>

### Anrhydeddu Tiwtor Busnes mewn Gwobrau Addysgu

Anrhydeddwyd Kim Purnell, Darlithydd ar y cwrs Busnes yng Ngholeg y Cymoedd gyda'r teitl o Ddarlithydd AB y Flwyddyn yn Seremoni Wobrwyon Addysgu Ysbrydoledig a gynhaliwyd gan New Directions yng Nghaerdydd yn

ddiweddar.
Mwy>>>

## CCAF a'r CBI yn tynnu sylw at bwysigrwydd AB i'r sector ariannol

Denodd brecwast busnes a gynhaliwyd ar y cyd gan CBI Cymru a Choleg Caerdydd a'r Fro hufen y diwydiant gwasanaethau ariannol a phroffesiynol Caerdydd i weld gwaith y sefydliadau addysg bellach yn y maes datblygol hwn.
Mwy>>>

## Llwyddiant menter Trading Places de-ddwyrain Cymru

Mae prosiect menter Trading Places wedi cyrraedd rhestr fer Gwobr Addysgwr Menter Cenedlaethol yn y categori Hyrwyddwr Menter AB. Arweinir y prosiect gan First Campus, mewn partneriaeth â Syniadau Mawr Cymru Llywodraeth Cymru a'i gydlynu trwy Canolfan Menter Ranbarthol de-ddwyrain Cymru.
Bydd enillydd y Wobr yn cael ei gyhoeddi yn seremoni wobrwyo IEEC2015 yn Chelmsford ar nos Iau 10 Medi.
Mwy>>>

## Llongyfarch staff am eu llu o wobrau

Ymunodd y Gwir Anrhydeddus Stephen Crabb AS a phennaeth Coleg Sir Benfro, Sharron Lusher, yn ddiweddar i longyfarch staff arobryn y coleg, gan gynnwys enillydd Gwobr Arian Pearson, Will Bateman.
Mwy>>>

# Dilyniant Myfyrwyr

## Pen-cogydd bwyty Egon Ronay-serennog yn dychwelyd i'w goleg a blas gourmet

Saith mlynedd ar ôl gadael Coleg Sir Gâr, dychwelodd Alex Alliston, pen-cogydd y Polyn, sydd a dwy rhosed AA a seren Egon Ronay, i'r coleg i weithio gyda myfyrwyr ar fwydlen sy'n cynnwys cynnyrch lleol.
Mwy>>>

## Ennill cystadleuaeth yn arwain at swydd electroneg

Wedi creu argraff ar y beirniaid yn rownd derfynol ranbarthol WorldSkills y DU yn ddiweddar Electroneg Ddiwydiannol, enillodd Stefano Amoruso, dysgwr o Goleg Gŵyr Abertawe, y gystadleuaeth a chafodd hefyd gynnig prentisiaeth gan un o'r beirniaid, David O'Keeffe, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trojan Electronics.
Diolch i'w fuddugoliaeth yn y gystadleuaeth, bydd Stefano hefyd yn cystadlu yng nhgystadleuaeth terfynol WorldSkills y DU yn y Sioe Sgiliau yn NEC Birmingham ym mis Tachwedd.
Mwy>>>

### Llwyddiant ffotograffig cyn-fyfyriwr coleg

Mae Emma Powell, cyn-fyfyriwr Gradd Sylfaen Ffotograffiaeth y Coleg Merthyr Tudful, wedi ennill BA mewn Ffotograffiaeth gyda gradd Dosbarth Cyntaf yn ogystal ag ennill Gwobr Myfyriwr y Flwyddyn yng Ngholeg Sir Gâr.
Mwy>>>

## Llongyfarchiadau! Llwyddiant Myfyrwyr

### Llwyddiant Weldio Cymru

Mae'r welder talentog o Goleg Sir Benfro, Ross Lascelles, sy'n brentis yn Main Port Engineering, wedi ennill cyntaf yn rownd derfynol ranbarthol SkillWeld Cymru, ac mae bellach yn gobeithio cael ei ddewis i gystadlu yn rownd derfynol y DU yn y Sioe Sgiliau yn Birmingham ym mis Tachwedd.
Mwy>>>

### Dysgwyr yn arlunio nofel ar gymoedd de Cymru

Bydd darluniadau 27 artist ifanc talentod o Dde Cymru, gan gynnwys 11 o ddysgwyr o Goleg y Cymoedd, yn cael eu defnyddio mewn nofel newydd am ddiwylliant pobl ifanc yn y Cymoedd.
Mwy>>>

### Adnabod Tiwtoriaid a Dysgwyr Arobryn

Cafodd nifer o diwtoriaid ac oedolion sy'n dysgu yng Ngholeg Sir Gâr eu cydnabod am eu cyflawniadau yng Ngŵyl Addysg Sir Gaerfyrddin.
Mwy>>>

## Colegau yn eu Cymunedau

### Diwrnod Gyrfaoedd i Ddisgyblion Ysgolion

Agorodd Coleg Sir Benfro ei ddrysau i ddisgyblion blwyddyn 9 o bob rhan o'r sir yn ddiweddar am ddiwrnod yn canolbwyntio ar opsiynau gyrfa yn y dyfodol gyda dros 75 o wahanol yrfaoedd i ddewis ohonynt.
Mwy>>>

**ColegauCymru,** Uned 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Caerdydd, CF15 7AB
**CollegesWales,** Unit 7, Cae Gwyrdd, Greenmeadow Springs, Tongwynlais Cardiff, CF15 7AB